Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

# ADRODDIAD I'R IS-BWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

## 9 Rhagfyr, 2025

| | |
|---|---|
| TEITL: | Cylch gorchwyl yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| AWDUR: | Claire Incledon, Dirprwy Swyddog Monitro (dros dro) |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Adolygu'r Cylch Gorchwyl ar gyfer yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (Atodiad 1).

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Nodi'r Cylch Gorchwyl .

## 3. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Mae'r Cylch Gorchwyl yn adlewyrchu rôl a swyddogaeth yr is-bwyllgor fel y nodir yn Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd 2021 a Chyfansoddiad y Cyd-bwyllgor Corfforedig. Mae gan yr is-bwyllgor swyddogaethau statudol penodol y mae'n rhaid iddo eu harfer fel y nodir yn y Cylch Gorchwyl.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Mae'n rhaid i'r CBC sefydlu Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae gan yr Is-bwyllgor y swyddogaethau a ganlyn fel y nodir yn Rheoliadau 2021:

- adolygu a chraffu materion ariannol yr awdurdod;
- gwneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â materion ariannol yr awdurdod;
- adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol, rheoli perfformiad a llywodraethu corfforaethol yr awdurdod;
- gwneud adroddiadau ac argymhellion i'r awdurdod ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny;
- adolygu ac asesu gallu'r awdurdod i ymdrin â chwynion yn effeithiol;
- llunio adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â gallu'r awdurdod i ymdrin â chwynion yn effeithiol;
- goruchwylio trefniadau archwilio mewnol ac allanol yr awdurdod, ac
- adolygu'r datganiadau ariannol a baratowyd gan yr awdurdod.

4.2. Mae'r Canllawiau statudol (ac anstatudol) a fwriedir i gefnogi prif gynghorau yn gymwys yn yr un modd i'r CBC. Mae'r Canllawiau hyn yn datgan, er mwyn cwrdd â gofynion dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, barn Llywodraeth Cymru yw bod pwyllgorau llywodraethu ac archwilio sy'n gweithredu'n dda yn hanfodol i lywodraethiant effeithiol cynghorau (a chyd-bwyllgorau corfforedig). Bydd yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn elfen allweddol o lywodraethiant corfforedig CBC y Gogledd.

4.3. Mae gan yr Is-bwyllgor bwerau penodol a amlinellir yn Rheoliadau 2021 ac a adlewyrchir yn ei Gylch Gorchwyl i adolygu a chraffu materion ariannol y CBC, adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol, rheoli perfformiad a threfniadau llywodraethu corfforaethol.

4.4. Mae'r CBC wedi mabwysiadu Rheolau Sefydlog a'r Cylch Gorchwyl ar gyfer yr Is-bwyllgor hwn. Yn unol â'r gofynion deddfwriaethol a nodir yn Rheoliadau 2021 bydd naw aelod o'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, gyda chwe aelod o Gynghorau Cyfansoddol, a thri aelod annibynnol (lleyg). Yn dilyn ymarferiad enwebu gan y Cynghorau, penododd y CBC yr aelodau yn ffurfiol ym mis Ionawr, sydd i gyd wedi cael eu cyfethol i'r Is-bwyllgor ers hynny.

4.5. Mae'r Cylch Gorchwyl atodedig yn cael eu dangos gyda newidiadau trac i ddangos newidiadau a wnaed ers eu mabwysiadu gan y CBC. Newidiadau i'r Cyfansoddiad i ddileu unrhyw anghysondeb, amwysedd neu wall teipograffig yn cael eu dirprwyo i'r Swyddog Monitro, ac mae'r Cylch Gorchwyl yn cael eu rhannu i hysbysu'r is-bwyllgor fel eu rôl a'u swyddogaeth. Mae'r Cyfansoddiad yn cael ei ddiweddaru yn unol â hynny.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Ar 6 Medi 2024 cymeradwyodd y CBC fabwysiadu cyfradd fesul awr mewn perthynas â Phenderfyniad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer aelodau lleyg a gaiff eu cyfethol. Mae hyn yn golygu y bydd aelodau lleyg yn gallu hawlio tâl mewn perthynas â pharatoi a mynychu cyfarfodydd ffurfiol o £29.75 yr awr, hyd at 4 awr am £119, a thros 4 awr mae'r gyfradd yn £238. Gall y Cadeirydd hawlio £33.50 yr awr, hyd at 4 awr am £134, a thros 4 awr mae'r gyfradd yn £268. Mae'r tâl hwn i'w dalu gan y CBC.

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Rhoddir sylw i'r goblygiadau cyfreithiol a llywodraethu yng nghorff yr adroddiad.

---

ATODIADAU:

Atodiad 1:Cylch gorchwyl yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

Nid oes gennyf sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

Mae unrhyw hawliad gan aelodau lleyg yn creu ymrwymiad ariannol ychwanegol bach i'r CBC.